

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion cyfarfod Tachwedd 7fed, 2013 o Gyngor Tref Y Bala

Presennol: Y Maer, Dorothe Evans, Y Dirprwy Faer, Ivora Jones, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Alun Price, Islwyn Pritchard Jones, Shan Ranson, Eifion Roberts, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw. Ymddiheuriad: Edith Roberts

1012 Croesawyd gwesteion, sef Sion Roberts a Gethyn Bowen o Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned, a Noella Jones a Delyth Thomas o Gymdeithas Tai Clwyd.

Eglurwyd gwaith yr Ymatebwyr Cyntaf sy'n anelu at gyrraedd claf o flaen ambiwlans er mwyn cynyddu'r siawns o wella. Mae'n wasanaeth pwysig iawn oherwydd ar adegau rhaid i drigolion yr ardal hon aros am ambiwlans gyrraedd o ganolfan hyd yn oed mor bell â Chroesoswallt. Ar hyn o bryd mae'r Ymatebwyr Cyntaf yn chwilio am fwy o wirfoddolwyr dros 18 oed, yn arbennig yn ystod oriau'r dydd. Maent hefyd wrthi'n brysur yn codi arian i brynu bag offer ychwanegol, ac roedd y Cyngor yn gallu awgrymu ffynonellau grant posib.

Eglurodd cynrychiolwyr Cymdeithas Tai Clwyd y drefn o osod cartrefi. Un ffurflen sydd angen ei llenwi ar gyfer pob math o gartrefi cymdeithasol ar osod, ac anogwyd pobl leol i ymgeisio am y cartrefi hyn. Mae gan bobl leol gystal siawns ag unrhyw un i gael cartref ac mae rhai pwyntiau ychwanegol yn cael eu rhoi i gais lleol. Nid ydyw'n bosib cadw cartrefi'n wag, felly mae angen i bobl leol wneud cais amdanynt er mwyn dod ar y rhestr, a gellir cael y ffurflen o Swyddfa Tai Clwyd yn Y Bala.

Trafodwyd ymddygiad annerbyniol rai tenantiaid, a dywedwyd yn glir iawn y dylid cwyno ar unwaith os oes problem. Gall y gŵyn fod yn un dienw ac fe gymerir camau priodol ar ol canfod tystiolaeth. Mae'n rhaid i bobl leol roi gwybod os oes problemau - a gorau po gyntaf mae'r gŵyn yn cyrraedd sylw'r swyddogion.

Wrth ddiolch i'r Swyddogion, talwyd teyrnged hefyd i'r ddarpariaeth wych yn Awel y Coleg, a darllenwyd llythyr o werthfawrogiad gan berson oedd wedi treulio cyfnod yn yr uned ysbaid cyn mynd gartref ar ôl derbyn gofal mewn ysbyty.

Diolchodd y Maer yn gynnes iawn i'r gwesteion.

1013 Nid oedd cyflwyniad gan aelod o'r cyhoedd ac nid oedd neb yn datgan diddordeb. Cytunodd yr aelodau i lenwi Cofrestr Buddiannau erbyn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu:**
Cynghorwyr

1014 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Hydref 3ydd 2013.

1015 Derbyniwyd cofnod o'r ymweliad safle ar 4/10/13 i drafod problemau goryrru lawr Heol Ffrydan ac ar y B4391. Mae angen i fan "Gan Bwyll" barhau i dargedu cyflymdra ar y ddwy ffordd hon. Roedd Peiriannydd Traffic Gwynedd yn cydnabod fod y ffordd B4391 yn beryglus oherwydd cyflymdra a dwyster y traffig, a chytunodd i baratoi adroddiad ar yr angen am groesfan. Pryder penna'r Cyngor Tref yw y bydd y peryglon yn gwaethygu os caniateir archfarchnad ar safle Uned 5 Parc Menter Y Bala. I'r perwyl hynny mae'r Cyngor Tref wedi anfon gwrthwynebiad i'r cais cynllunio gan Co-op mis Gorffennaf diwethaf, oni bai fod croesfan gyda goleuadau yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau. Cytunodd y Cyngor Dref i anfon yn unigol at bob aelod o Bwyllgor Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri i egluro'r angen am groesfan gyda goleuadau ar sail:

- cyflymdra a dwysedd y traffig ar hyd y B4391.
- Bod y ffordd yn cael ei ddefnyddio gan rieni a phlant i gyrraedd Ysgol Gynradd Bro Tegid.
- Bod tai ar gyfer yr henoed yn ymyl y ffordd
- Bod angen croesi'r ffordd i gyrraedd maes chwarae i'r plant ar Y Grîn

Mae Cyngor Tref Y Bala o'r farn byddai caniatáu archfarchnad ar y safle hwn yn cynhyrchu mwy o drafnidiaeth ac yn cynyddu'n ddirfawr y peryglon sydd eisoes yn bodoli.

Byddai cynnwys croesfan gyda goleuadau yn y cynlluniau yn gymorth mawr i leihau'r peryglon.

Gweithredu: Clerc

Cytunodd Dilwyn Morgan i ysgrifennu at gwmni'r Co-op i ofyn am eu cydweithrediad a'u hewyllys da gyda'r mater. Bydd hefyd yn cysylltu gydag aelodau unigol y pwyllgor Cynllunio.

1016 Materion y Cynghorydd Sir

- i. Bro Eryl - mae'r Clerc a'r Cynghorydd Sir wedi rhoi cymorth gyda'r ymholiad am barcio o flaen tŷ ar y stad.
- ii. Mae'r Cynghorydd Sir wedi gweithredu i sicrhau fod wal beryglus ar y Stryd Fawr wedi ei thynnu a'u hail-adeiladu'n ddiogel.
- iii. Prosiect Grymuso Cymuned Cyngor Gwynedd parthed halenni llwybrau - cytunodd y Cyngor i gefnogi'r egwyddor fod trigolion lleol yn cael halen, offer a hyfforddiant i glirio rhew oddi ar balmentydd (o dan yswiriant y Cyngor Sir). Roedd diddordeb mewn lledaenu'r cyfle hwn i ardaloedd eraill o'r dref yn ogystal â'r Stryd Fawr.
- iv. Delwedd y dref – diolchodd Cynghorydd Gwynedd am yr adroddiad ar wella delwedd y dref a mynegodd y farn y bydd rhaid i'r gymuned gyd-weithio a gweithredu'n wirfoddol os am gynnwys gwasanaethau a safonau, oherwydd nid ydyw'r arian gan Gynghorau Sir i gynnwys gwaith a wnaethpwyd yn y gorffennol. Ychwanegodd y Cyngor mater glanhau cerflun Tom Ellis at y rhestr. Mynegwyd dymuniad i gael mwy o flodau mewn mannau cyhoeddus a lledu'r palmant wrth yr efail.

Tynnwyd sylw at yr angen i lanhau a chael gwell ffrâm ar fwrdd gwybodaeth taith Mari Jones
Gweithredu: Clerc i anfon at y Gymdeithas Feiblaidd.

Rhoddodd Sharon Evans ac Eluned Jones adroddiad cynhwysfawr ar gyfarfod diweddar o'r
Grŵp Siopau.

1017. Materion lleol y Cynghorwyr:

Tynnwyd sylw at oryrru ar hyd Heol y Domen; cytunodd y Cynghorydd Sir i godi'r mater yn ei
gyfarfod gyda'r Arolygydd Mark Armstrong o Heddlu Gogledd Cymru. **Gweithredu: Dilwyn
Morgan**

Derbyniwyd cŵyn fod ceir yn bacio nôl i Ffordd y Gerddi gan greu perygl i ddisgyblion ar
ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Cytunodd y cynrychiolwyr i godi'r mater yng nghyfarfod
nesaf Llywodraethwyr Ysgol Bro Tegid. **Gweithredu: Eifion Roberts, Dilys Evans**

Cytunwyd i ohebu eto gyda'r Swyddog Gorfodaeth parthed baw ci ar y maes criced.
Gweithredu: Clerc

Pryder am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn arbennig achosion o rwygo teiars a thorri
fffenestri – cytunodd y Cynghorydd Sir i fynegi'r pryder wrth Mark Armstrong. **Gweithredu:**
Dilwyn Morgan

1018 Materion Cynllunio

- i. Derbyniwyd gwybodaeth fod caniatâd wedi ei roi i Gais NP5/53/36 81-13 Stryd Fawr i
werthu bwyd i'w fwyta mewn man arall, yn ogystal â chais NP5/53/36B am fflw allanol.
- ii. Cymeradwywyd cais NP5/53/519 i greu 2 le parcio ar dir ym Mro Eryl.

1019 Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf
- ii. Derbyniwyd derbynneb gan gwmni cyfrifyddion Hacker Young
- iii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:
 - a. Ffôn symudol y Cyngor £4.98
 - b. Glanhau ac ail lythrennu'r Gofeb Goffa: £210
 - c. Trosglwyddiad o Gyngor Gwynedd i Bartneriaeth Penllyn £11420.97
 - d. Gwaith cynnal a chadw ar y domen: £840
 - e. Hysbyseb yn y wasg leol am Glerc: £40

- iv. Yn absenoldeb y Clerc, cytunwyd ar lefel y cyflog.

Medi 2013- Medi 2014 £4, 969.90

Medi 2014 ychwanegu £73.45

- v. Derbyniwyd ad-daliad TAW (£1040.27 Cyngor Tref Y Bala; £717.00 Partneriaeth Penllyn) a chytunwyd i drosglwyddo taliad y Bartneriaeth.

11. Gohebiaeth

a. Llywodraeth Cymru:

Derbyniwyd gwybodaeth am grant at frechu moch daear a system tabl prisio ar gyfer iawndal Dicáu mewn gwartheg.

Derbyniwyd e-newyddlen am Gyfoeth Naturiol Cymru a neges gan y Gweinidog.

Derbyniwyd gwybodaeth ymlaen llaw am ymgynghoriad ar *Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol*.

Nodwyd gwahoddiad i ymgeisio am grant Rheoli Adnoddau Naturiol.

b. Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd llythyr y Prif Weithredwr parthed trethi ail gartrefi a chymeradwywyd ymateb y Clerc i'r ymgynghoriad ar y mater.

Derbyniwyd newyddlen Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd.

Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Economaidd Gwynedd.

Derbyniwyd Rhaglen Waith Tachwedd Adran y Priffyrdd, sef gosod arwyddion Taith Tegid.

c. Un Llais Cymru

Derbyniwyd gwybodaeth am y Rhaglen Hyfforddiant gyda chyrsgiau newydd.

Derbyniwyd gwybodaeth am astudiaethau achos yr Ombwdsman.

Derbyniwyd gwybodaeth am ymdrechion Un Llais Cymru i wella'r gwasanaeth ffôn yng nghefn gwlad.

Derbyniwyd model diweddaraf o Reoliadau Ariannol a chytunwyd i'w roi i ystyriaeth yr Is Bwyllgor Cyllid wrth drafod y Gyllideb ddrafft. **Gweithredu: Clerc ac Is Bwyllgor Cyllid.**

Derbyniwyd gwybodaeth am nodi can mlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Derbyniwyd cais am enwebiadau ar gyfer Gwobr Dewi Sant. Oherwydd bod y dyddiad cau ar 5/11/13, roedd y Maer wedi ymgynghori ac wedi enwebu enw'r diweddar Bryan Davies.

d. Heddlu

Derbyniwyd negeseuon oddi wrth Mark Armstrong a Lona Davenport yn ymddiheuro am eu habsenoldeb ac yn cynnig mynychu yn y dyfodol. Cyfarfod i'w drefnu eto. **Gweithredu: Clerc**

Derbyniwyd gwybodaeth am lansio ymgyrch yn erbyn ffonau symudol wrth yrru.

Derbyniwyd gwybodaeth am grant er mwyn gwella diogelwch cymunedol a chytunwyd i drosglwyddo'r wybodaeth i sylw'r Grŵp Siopau gan nad yw yn bosib i'r Cyngor wneud cais am y grant.

e. Eraill

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Dafydd Elis Thomas parthed gwasanaeth bws Arriva. Ystyriwyd cais gan Gymdeithas yr Iaith am angen tai yn lleol, ond cytunwyd nad oedd y cais yn berthnasol i ardal cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.

Nodwyd cais gan Eisteddfod yr Urdd am wirfoddolwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala.

Derbyniwyd cydnabod ailgyfeiriad gohebiaeth tan 24/4/14.

Nodwyd cais am adnewyddu mesurydd nwy yn yr Henblas, a drosglwyddwyd gan y Clerc i sylw Cyngor Gwynedd.

Nodwyd gwybodaeth gan y "War Memorials Trust".

Derbyniwyd gwahoddiad i'r Maer gyflwyno gwobrau yn y noson Siopa Hwyr.

Derbyniwyd gwahoddiad gan Y Lleng Brydeinig i fynychu'r gwasanaeth ar Sul y Cofio.

12. Asedau'r Cyngor - derbyniwyd adroddiad Alun Price ar eu cyflwr. Tynnodd sylw y bydd angen baner newydd ar y Domen. Cytunwyd i ychwanegu'r polyn signal at y rhestr.

Cytunodd Sharon Evans i wneud asesiad Rhagfyr. **Gweithredu: Sharon Evans**

13. Cynrychiolaeth: - cadarnhawyd enwau cynrychiolwyr i Bartneriaeth Penllyn: Islwyn Pritchard Jones (Cytundebau); Dilwyn Jones tan Mai 2014 - Yr Henblas, gyda Dilys Evans yn ei olynu.

14. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad gan y cydlynnydd a gyfeiriodd at osod y gwaith adnewyddu yn Henblas i adeiladwyr lleol, gwaith y Swyddog Marchnata, cais am grant pellach, ac at y cyfle i annerch Cyngorwyr yng nghyfarfod nesaf Fforwm Meirionnydd.

15. Hyfforddiant: Derbyniwyd adroddiad y Clerc ar hyfforddiant a fynychodd ar 16/10/13 ar y Côt Ymddygiad .

16. Nadolig: Cytunwyd i archebu'r goleuadau ar y coed yn y Stryd Fawr. **Gweithredu: Clerc**
Cytunwyd i archebu coed Nadolig fel arfer ac ar yr un telerau a llynedd gan ofyn iddynt gael eu gosod mewn da bryd ar gyfer y noson Siopa Hwyr. **Gweithredu: Sharon Evans** *Telerau: £5 am y cyntaf; £8 am yr ail. Roedd S Wood wedi cytuno i godi'r un faint a llynedd. Ef fydd yn casglu'r arian ac yn anfonebu'r Cyngor am y gweddill.*

17. Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 12/12/13 am 6.30 yng Nghanolfan Bro Tegid cyn mynd am Swper Nadolig ym Mhlas yn Dref am 8.00pm

Amser gorffen: 10.00pm